



Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid Arfaethedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Dyddiad lansio: 02 Hydref 2020

Ymateb erbyn: 13 Tachwedd 2020

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Busnesau bwyd anifeiliaid, awdurdodau gorfodi lleol, a rhanddeiliaid perthnasol eraill, a allai fod â diddordeb yn y polisi a'r ddeddfwriaeth ar fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS)

Pwnc ymgynghori

Bydd Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid arfaethedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 ar sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol a diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC yng Nghymru.

Pwrpas yr ymgynghoriad

Ceisio sylwadau gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ar y cynnig i greu'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid arfaethedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Adam.McDowell@food.gov.uk	Cyfeiriad post:
Adam McDowell	Llawr 11, Tŷ Southgate,
Tîm Polisi Rheoleiddio	Wood St,
	Caerdydd
	CF10 1EW

Manylion yr ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Rydym ni'n croesawu eich sylwadau ar
 - Gynnig yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) am offeryn statudol i weithredu a gorfodi Rheoliad (UE) 2008/38 gan sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol a diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC yng Nghymru.
2. Bydd yr ASB yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon yn cynnal ymgynghoriadau tebyg yn berthnasol i'w rhanbarthau nhw. Bydd Safonau Bwyd yr Alban yn cynnal eu hymgyngoriad eu hunain.
3. Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn diwygio [Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid \(Marchnata, Cyfansoddiad a Defnydd\) \(Cymru\) 2016 a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid \(Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi\) \(Cymru\) 2016](#).

Cefndir

4. Mae bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol, a elwir hefyd yn fwyd anifeiliaid deietegol, yn fwyd anifeiliaid â diben maethol penodol y mae anifeiliaid yn ei gael at eu hiechyd. Er enghraifft, er mwyn cefnogi'r arenau os oes problemau cronig gyda'r arenau.
5. Mae gosod bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio yn cael ei reoleiddio gan Reoliad (CE) Rhif 767/2009. Yn unol ag Erthygl 9 y Rheoliad hwnnw, dim ond os yw'r defnydd a fwriadwyd wedi'i gynnwys mewn rhestr o ddefnyddiau arfaethedig a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 10 Rheoliad 767/2009 y gellir marchnata bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (bwyd anifeiliaid deietegol). Mae enghreifftiau o'r defnyddiau hyn yn cynnwys 'lleihau copr yn yr afu/iau' a 'lleihau pwysau corff gormodol'.
6. Ar hyn o bryd mae'r rhestr o ddefnyddiau arfaethedig ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol wedi'i chynnwys yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2008/38/CE a sefydlodd hefyd y darpariaethau cyffredinol ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol.
7. Sefydlodd erthyglau 11 i 17 Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 egwyddorion a rheolau newydd ar gyfer rhoi bwyd anifeiliaid ar y farchnad, gan gynnwys labelu. O ganlyniad, roedd sawl cofnod yn y rhestr o ddefnyddiau arfaethedig

ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol o fewn Cyfarwyddeb 2008/38/EC wedi dyddio, yn rhannol oherwydd disgrifiadau gwael a rhy gyffredinol yn y golofn 'Nodweddion maethol hanfodol'. Ar gyfer cofnodion o'r fath, mae wedi bod yn anodd iawn i'r awdurdodau lleol wirio cydymffurfiaeth â darpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 767/2009, gan gynnwys p'un a yw cyfansoddiad penodol y bwyd anifeiliaid dan sylw yn cyflawni'r pwrpas maethol penodol a fwriadwyd.

8. Mae Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354 yn diddymu ac yn disodli Cyfarwyddeb 2008/38/EC ac yn benodol;
 - Yn disodli darpariaethau cyffredinol Cyfarwyddeb 2008/38/EC â'r rhai a nodir yn Rheoliad (UE) 2020/354
 - Yn diweddarau'r rhestr o ddefnyddiau a fwriadwyd at ddibenion maethol penodol trwy;
 - (a) ychwanegu a dileu dibenion maethol penodol;
 - (b) diwygio'r nodweddion maethol hanfodol, datganiadau labelu, yr amser a argymhellir a'r darpariaethau yng ngholofn 'darpariaethau eraill' y dibenion maethol penodol

Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354

9. Yn ôl Erthygl 1, gellir marchnata bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol dim ond os:
 - (a) Cydymffurfir â'r darpariaethau cyffredinol ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol a nodir yn Rhan A o'r Atodiad i Rheoliad (UE) 2020/354, a
 - (b) Mae ei ddefnydd arfaethedig wedi'i gynnwys yn Rhan B o Atodiad Rheoliad (UE) 2020/354 ac fe gydymffurfir â darpariaethau'r cofnod priodol.
10. Fel rhanddirymiad (*derogation*) o Erthygl 1, gellir parhau i roi bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol sy'n cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwyddeb 2008/38/EC ar y farchnad, ar yr amod bod cais am ddefnydd arfaethedig wedi'i gynnwys a'i gyflwyno i'r Comisiwn yn unol ag Erthygl 10 Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 cyn 25 Mawrth 2021 a hyd nes y bydd y Comisiwn yn penderfynu ar y cais priodol.
11. Gellir parhau i roi bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol sydd wedi'i labelu cyn 25 Mawrth 2022 yn unol â'r rheolau sy'n berthnasol cyn 25 Mawrth

2020 ar y farchnad, a'i ddefnyddio nes bod y stociau presennol wedi dod i ben.

12. Mae'r rhestr wedi'i diweddarau o ddefnyddiau arfaethedig ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol bellach wedi'i chynnwys yn Rhan B yr Atodiad i Reoliad (UE) 2020/354

Cyfnod Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE)

13. Gadawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020. Fel rhan o'r Cytundeb Ymadael, cytunwyd ar gyfnod pontio lle fyddai deddfwriaeth yr UE yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU. Daw'r Cyfnod Pontio i ben am 11pm ar 31 Rhagfyr 2020. Mae darpariaethau Rheoliad 2020/354 yn gymwys o 25 Rhagfyr 2020.

Prif gynnig

Y cynnig sy'n cael ei ystyried yw:

14. Darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yng Nghymru
15. Byddai'r rheoliadau domestig arfaethedig yn caniatáu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yng Nghymru.
16. Os na fydd y deddfwriaeth yn cael ei llunio, o 25 Rhagfyr 2020, bydd Cyfarwyddeb 2008/38/EC a Rheoliad (UE) 2020/354 yn berthnasol yng Nghymru o dan Ran 5 a Rhan 7 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Marchnata, Cyfansoddiad a Defnydd) 2016. O ganlyniad, byddai dwy restr wahanol a gwrthgyferbyniol o'r defnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid at Ddibenion Maethol Neilltuol yn orfodol.
17. Mae angen Deddfwriaeth Ddomestig i orfodi 2020/354 yng Nghymru ac i gael gwared ar bob cyfeiriad at y gyfarwyddeb flaenorol (Cyfarwyddeb 2008/38/EC) i sicrhau nad oes gwrthdaro yng nghyfraith y DU.

Gorfodi

18. Mae'r rheoliadau arfaethedig yn caniatáu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354 yng Nghymru.
19. Mae'r rheoliadau drafft arfaethedig ar gyfer gweithredu Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354 yn bwriadu dilyn yr un dull gorfodi ag a gymerir gyda Chyfarwyddeb 2008/38/EC yn Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016, sef trwy dymor o garchar nad yw'n hirach na chwe mis neu ddirwy, neu'r ddau. Bydd y rheoliadau drafft arfaethedig yn dileu'r darpariaethau sy'n gorfodi 2008/38/EC ac yn eu disodli

â darpariaethau cyfatebol sy'n gorfodi 2020/354, heb unrhyw newid i'r dewis gorfodi.

20. Mae'r rheoliadau domestig drafft arfaethedig hefyd yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016 trwy ychwanegu Rheoliad (UE) 2020/354 at y rhestr o 'gyfraith bwyd anifeiliaid penodedig'. O'r herwydd, bydd yr holl bwerau a darpariaethau o dan Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016 hefyd yn berthnasol i orfodi Rheoliad (UE) 2020/354. Mae mesurau gorfodi yn cynnwys hysbysiadau gwella, pwerau mynediad a phwerau mynediad a chadw.

Gan fod y mesurau gorfodi hyn eisoes yn berthnasol i orfodi Cyfarwyddeb 2008/38/EC, ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y bydd Rheoliad (UE) 2020/354 yn cael ei orfodi o'i gymharu â Chyfarwyddeb 2008/38/EC

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

21. Rydym ni'n lansio ymgynghoriad cyhoeddus chwech wythnos er mwyn rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb wneud sylwadau ar y ddeddfwriaeth ddomestig arfaethedig ar gyfer Rheoliad (UE) 2020/354 a'i effeithiau cysylltiedig. Mae'r ASB yn rhagweld y bydd yr effaith ar fusnesau ac awdurdodau gorfodi wrth ymgyfarwyddo â'r rheoliadau gorfodi hyn yn fach iawn.
22. Mae swyddogion polisi'r ASB o'r farn ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn, o ystyried natur dechnegol iawn y newidiadau sy'n cael eu gwneud bod ymgynghoriad o chwe wythnos yn digwydd. At hynny, cysylltir â rhanddeiliaid yn uniongyrchol pan fydd yr ymgynghoriad yn agor ac eto wythnos cyn i'r ymgynghoriad gau.
23. Bydd unrhyw ymatebion a ddaw i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus, a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan o fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. A fydd gweithredu'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar eich busnes? Os ydych chi o'r farn y bydd y Rheoliadau'n effeithio ar eich busnes chi, neu fusnes yn eich ardal chi, a fydddech cystal â nodi unrhyw wybodaeth am nifer y busnesau hynny, eu lleoliad ac yn ddelfrydol, maint y cwmni o ran staff.
2. A ydych chi'n ystyried y bydd y polisi/Rheoliadau arfaethedig yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
3. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Rheoliad (UE) 2020/354 yn eu cael ar y Gymraeg, yn arbennig yn ymwneud â:
 - i) chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
 - ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.
4. Sut effeithiau fydddech chi'n eu rhagweld? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Dogfennau perthnasol eraill

[Rheoliad \(EU\) 2020/354 yn sefydlu rhestr o ddefnyddiau bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC](#)

[Rheoliad \(CE\) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio](#)

[Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/38/EC o 5 Mawrth 2008 sy'n sefydlu rhestr o ddibenion bwriedig ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddefnydd maethol neilltuol.](#)

[Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid \(Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio\) \(Cymru\) 2016](#)

[Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid \(Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi\) \(Cymru\) 2016](#)

Ymatebion

Mae angen ymatebion erbyn diwedd y dydd ar 13 Tachwedd 2020. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Adam McDowell

Tîm Polisi Rheoleiddio

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru

Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymddrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni'n effeithiol tasg sydd er budd y cyhoedd, hynny yw, ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr UE. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y

Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partion fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Aseiad Effaith

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Aseidiadau Effaith yn nodi y dylid cyhoeddi Aseiad Effaith fel rheol ochr yn ochr ag ymgynghoriad ffurfiol. Rydym ni o'r farn y bydd effaith y Rheoliadau arfaethedig ar fusnesau ac awdurdodau gorfodi yn ddibwys. Dim ond ar gyfer Rheoliad Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol heb unrhyw fesurau cenedlaethol y byddant yn darparu ar gyfer gorfodi.

Fodd bynnag, os fydd yr ymgynghoriad yn dod ag unrhyw effaith i'r amlwg ar gyfrif gorfodi neu'r diwydiant na ragwelwyd, byddwn ni'n ailystyried yr angen am Aseiad Effaith.

Atodiad C: Rhestr o bawb sydd â diddordeb

Pen-Y-Parc Ltd

GT&E Feeds

Clydach Farm

Bwlchygroes Farm Feeds

R&S Ward Ltd

Cambrian Pet Foods Ltd

Bibby Agri

Raw Feeding Cwmbran

Three Counties Agriculture

Pet at home

Wye Valley Country Store

Raw Feeding Wales

Maelor Feeds

RM Jones

Raw Dog Food Cymru

ForFarmers UK Ltd

Farm & Pet Place

Natural Feeds & Fertilisers Ltd

Powys Leys

Henry Cole & Co Ltd

NWF Agriculture

M&S Livestock Feeds & Pet Supplies

Corwen Farmers Ltd